

Cynllun Gweithredu

Cyfnodau Allweddol 1 a 2

Amcanion

- Dehongli data o'r archwiliad gwastraff
- Gwerthuso'r anghenion sydd yn codi o ddata'r archwiliad
- Cynnig atebion realistig i'r anghenion hyn
- Cydweithio'n effeithiol fel grŵp

Cyfleoedd i'r Disgyblion

- Gwerthfawrogi'r cysylltiad rhwng patrymau ymddygiad a chynhyrchu gwastraff
- Deall yr angen dros hybu gweithredu cadarnhaol er mwyn ennyn cefnogaeth o fewn cymuned yr ysgol
- Cymryd cyfrifoldeb dros amgylchedd yr ysgol
- Gwneud penderfyniadau a dewisiadau sydd yn effeithio ar amgylchedd yr ysgol
- Chwarae rhan ym mhroses benderfynu'r ysgol

Cwricwlwm

Saesneg

Cyfnod Allweddol 1

- gwrando ac ymateb yn addas i oedolion a'u cyfoedion

Cyfnod Allweddol 2

- gofyn cwestiynau perthnasol i ymestyn eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth
- mynegi a chyfiawnhau atebion, dadleuon a barnau
- rhoi disgrifiadau, esboniadau ac adroddiadau strwythuredig, at ddibenion amrywiol, yn cynnwys mynegi teimladau



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



- defnyddio iaith lafar i ddatblygu dealltwriaeth drwy fyfyrion, damcaniaethu, dychmygu ac archwilio syniadau
- cyfranogi mewn trafodaethau, cyflwyniadau, perfformiadau, chwarae rôl, darnau byrfyfyr a dadleuon
- ennyn, cynnal a monitro diddordeb y gwrandäwr(wyr)
- ystyried a gwerthuso gwahanol safbwyntiau, gan dalu sylw i ac adeiladu ar gyfraniadau eraill

Gwyddoniaeth

Cyfnod Allweddol 2

Gweithio'n wyddonol

- defnyddio canlyniadau i gyrraedd casgliadau syml, gwneud rhagdybiaethau am werthoedd newydd, awgrymu gwelliannau a chodi cwestiynau pellach

Pethau byw a'u cynefinoedd

- cydnabod y gall amgylcheddau newid ac y gall hyn weithiau achosi peryglon i bethau byw

Mathemateg

Cyfnod Allweddol 1

Ystadegau

- dehongli a chreu pictogramau, siartiau cyfrif, diagramau bloc a thablau syml

Cyfnod Allweddol 2

Ystadegau

- dehongli a chyflwyno data gan ddefnyddio siartiau bar, pictogramau a thablau

Gweithgaredd – Cyflwyniad

Unwaith mae canlyniadau'r archwiliad gennych a'r plant yn deall y niferoedd, deunyddiau a lleoliadau yn yr ysgol lle cynhyrchir gwastraff, gallwch ddadansoddi'r canlyniadau mewn trafodaeth ddosbarth.

Cyflwynwch y data a gasglwyd yn yr archwiliad gwastraff i'r dosbarth a thrafodwch fanteision amgylcheddol ailgylchu fel dosbarth. Enwch y rhannau o'r ysgol lle mae gwastraff yn casglu fwyaf, a'r mathau mwyaf cyffredin o wastraff a geir yn yr ysgol.

Pethau i'w hystyried

- Yr eitemau mwyaf cyffredin a geir o bob deunydd
- Pam mae rhai eitemau'n fwy cyffredin mewn rhai manau nag eraill
- Y rheswm dros, y nifer, y deunyddiau a ddefnyddir a'r goblygiadau amgylcheddol sydd ynghlwm â deunydd pecynnu
- Ffyrdd o leihau'r gwastraff ar gyfer pob deunydd
- Pa ddeunyddiau y gellid eu hailddefnyddio a sut
- Pa ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu

Trafodwch pam mae rhai lleoliadau a deunyddiau yn peri problemau mwy nag eraill a chytunwch ar resymau tebygol.

Gallai fod yn ddefnyddiol i greu map meddwl gyda'r dosbarth i ysgogi trafodaeth a dealltwriaeth bellach.

Rydych chi'n barod i fynd ati i lunio cynllun gweithredu!

Creu Cynllun Gweithredu

Rhestrwch y problemau a amlygwyd gan yr archwiliad yr hoffech i'ch dosbarth/grŵp ymdrin â nhw. Fel dosbarth/grŵp, trafodwch atebion posib i'r problemau fesul un. Cwtogwch yr atebion posibl gan roi rhesymau dros hyn i'r dosbarth/grŵp, nes bydd gennych 3–5 ateb i bob problem. Cytunwch ar ateb i bob problem drwy bleidleisio. Gellir cytuno mwy nag un ateb os yw hynny'n ymarferol.

Mae'n syniad cadw mewn cof beth fyddai'r cymhellion i dîm rheoli'r ysgol gytuno unrhyw weithgareddau a chymhellion i ddisgyblion gymryd rhan, ynghyd â'r ffaith bod ailgylchu'n arbed ynni ac adnoddau.

Cymhellion i Dîm Rheoli'r Ysgol

- Sut byddai gweithredoedd wedi'u hawgrymu ganddyn nhw o fudd i gymuned yr ysgol ac i'r amgylchedd
- Beth allai newid agwedd yr athro at wastraff



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



- Beth fyddai'n gymhellion da i'r ysgol gyfan/eich teulu leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu
- Dichonoldeb unrhyw strategaethau yr hoffen nhw eu gweithredu

Cymhellion i'r Disgyblion

- Beth fyddai'n gymhellion da i ddisgyblion leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu
- Beth allai newid agwedd y disgyblion at wastraff
- Beth fyddai'n gwneud y sgiliau craidd yn yr ysgol yn fwy ymarferol

Gweithredu'r Atebion

Ystyriwch sut i fynd ati i weithredu'r atebion hyn. Trafodwch bob ateb gyda'ch dosbarth/grŵp, gan anelu at eu helpu i rannu bob ateb i'r camau fydd angen eu cymryd i'w gyflawni. Dylai'r camau hyn gynnwys dulliau o'u gweithredu, rhannu'r cyfrifoldebau ac amserlin realistig.

Gofynnwch i'ch dosbarth weithio yn eu timau i benderfynu:

- Pa weithred/cam yr hoffen nhw eu cymryd yn eu hardal
- Sut y gallant ei wneud
- Pwy maen nhw'n credu ddylai fod yn gyfrifol am drefnu hyn
- Pa mor hir maen nhw'n credu y bydd hyn yn ei gymryd i'w gyflawni

Wedi i chi gwblhau'ch Cynllun Gweithredu, dylech drafod sut i gyflwyno'ch syniadau i benderfynwyr ac i gymuned yr ysgol, er mwyn cael eu sêl bendith ar ddulliau o annog yr ysgol gyfan i gymryd rhan.

Pethau i'w hystyried

Ymgysylltu â Chymuned yr Ysgol

- Ychwanegwch adran am ailgylchu at wefan eich ysgol. Gallai hyn gynnwys manylion cyfranwyr allweddol a chylchlythyr ailgylchu rheolaidd
- Paratowch gyfarfod boreol yn rheolaidd i rannu canlyniadau, llwyddiannau a chynlluniau datblygu ailgylchu i'r dyfodol, a rhannwch y canlyniadau hyn gyda rhieni
- Cytunwch, mabwysiadwch ac arddangoswch eich 'Cod Eco' (datganiad pwrpas amgylcheddol ar gyfer eich ysgol)



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales



- Arddangoswch siart gwastraff ar gyfer eich ysgol, i'w arddangos mewn lle amlwg yn yr ysgol gan gofnodi cynnydd a chymhellion ar gyfer llwyddiannau
- Cyflwynwch syniadau lleihau gwastraff i rieni mewn cyflwyniadau a pherfformiadau

Ymgysylltu â Thîm Rheoli'r Ysgol

- Enwebwch Eco-Bencampwr rhagweithiol yn eich ysgol
- Siaradwch gyda'ch awdurdod lleol a darganfyddwch beth sydd gan eich contractwyr gwastraff i'w gynnig
- Ystyriwch gofrestru fel Eco-Ysgol ac ethol Tîm Eco yn yr ysgol
- Gofynnwch i'r cyfryngau lleol roi sylw i'r fenter er mwyn codi ymwybyddiaeth yn y gymuned a chodi proffil eich ysgol drwy gyflwyno gwybodaeth a lluniau sydd yn arddangos gweithgareddau'ch ysgol
- Trefnwch ddiwrnod codi arian i'r ysgol, gan wahodd rhieni ac artistiaid lleol i gynnal gweithgareddau a stondinau yn ymwneud â gwastraff a lleihau, aildddefnyddio, ailgylchu
- Codwch arian drwy ailgylchu nifer o eitemau: gellir casglu dillad, cetris argraffwyr ac ati, a threfnu iddynt gael eu casglu am arian.

Cyflawni'ch tasgau

Sicrhewch fod digon o amser gan eich disgyblion i gyflawni dyletswyddau eu Cynllun Gweithredu. Neilltuwch amser yn y dosbarth iddyn nhw gynnal y gweithgareddau maen nhw wedi'u gosod iddyn nhw eu hunain a rhowch wybod i aelodau eraill o staff am y dyletswyddau hyn. Bydd y tasgau yn dibynnu ar p'un a ydych eisoes yn ailgylchu yn yr ysgol neu ar fin sefydlu cynllun ailgylchu newydd.

Dyma rai esiamplau o dasgau cynllun gweithredu:

- Darparu hyfforddiant i staff a disgyblion ar ba ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu yn eich ysgol ac ymhle. Trafodwch broblemau fel llygru (rhoi deunyddiau yn y bin anghywir) ac eglurwch fanteision ailgylchu.
- Dosbarthwch gynhwysyddion ailgylchu a'u labelu'n glir. Gall disgyblion lawrlwytho, argraffu a dod i'r posteri ac arwyddion Ailgylchu Nawr amlwg o: www.wastebuster.co.uk/homerecyclingchallenge
- Marciwch fannau ailgylchu yn glir, er enghraifft drwy arddangos posteri ac arwyddion Ailgylchu Nawr o: www.wastebuster.co.uk/homerecyclingchallenge



Adolygu

Pennwch ddyddiad adolygu er mwyn mynd dros eich cynllun gweithredu fel grŵp i weld faint o gynnydd sydd wedi'i wneud a gweld beth arall y gallwch ei wneud.

Argymhellwn eich bod yn cynnal ail archwiliad er mwyn mesur pa mor effeithiol yw'r gweithredoedd mewn lleihau gwastraff yr ysgol. Bydd y plant wedyn yn gallu gweld yr effaith gadarnhaol y maen nhw wedi'i gael ar yr ysgol. Efallai yr hoffech gynnal cynllun lleihau gwastraff bob blwyddyn fel y gall eich ysgol barhau i wella neu gallwch ddefnyddio'r un broses i ganolbwyntio ar ddeunydd neu leoliad penodol sy'n peri trafferth.

Gellir cynnal archwiliadau gydol y flwyddyn a bydd hyn hefyd yn helpu i roi darlun manwl i chi o'r hyn sydd yn digwydd gyda gwastraff o amgylch yr ysgol, a gobeithio y bydd yn arwain eich disgyblion tuag at ddod o hyd i atebion.

Gellir ymestyn yr archwiliad ysgol hefyd i ymchwilio sut y gallai newid patrymau prynu effeithio ar leihau gwastraff bwyd, papur, nwyddau glanhau, gwasanaethau, ac ati.

Cyngor gorau: Gallai fod yn ddefnyddiol i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol cyn ymgymryd â'r gweithgaredd hwn gyda'ch disgyblion i weld pa weithredoedd sydd yn ddichonadwy yn eich ardal er mwyn rheoli disgwyliadau'r disgyblion.



ailgylchu dros Gyrmu
recycle for Wales

